# Cymunedau Creadigol AHRC

**Pecyn Cymorth - Modiwl 2:**
Cyfleu Arloesedd: Sut mae codi proffil eich ymchwil

Mae'r **Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol** yn datgloi dysgu drwy raglenni ar gyfer cymunedau creadigol, gan eu grymuso i fynd i'r afael â heriau cyffredin drwy ymchwil a datblygu diwylliannol newydd, ac i weithio'n well gyda rhanddeiliaid traws-sector drwy fethodolegau cydweithredol.

Mae'r modiwl hwn yn y Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol yn gallu eich helpu i ddeall gwahanol ffyrdd o fynegi effaith ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd amrywiol.

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

# Beth yw manteision posib rhannu eich ymchwil?



## 1 CYDLYNIANT

Dod â phobl ynghyd

## 2 DYLANWADU

Dylanwadu ar bolisi neu ymarfer

## 3 SICRHAU NEWID

Codi ymwybyddiaeth neu newid rhywbeth



## 4 YSGOGI

Dechrau ymgyrch neu greu capasiti



# Beth yw manteision posib rhannu eich ymchwil?

## Cyfleoedd Academaidd



- Ennyn diddordeb ar gyfryngau cymdeithasol ac ar-lein drwy flogiau neu bostio ar wefannau
- Defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod i rannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu
- Cyfryngau a phodlediadau – mae rhagor o wybodaeth yn ein **blog ar bodlediadau Cymunedau Creadigol** ac yn y **gyfres o bodlediadau**, sy'n rhannu straeon ymchwil a datblygu diwylliannol mewn cymunedau a chyd-destunau datganoledig ledled y DU
- Cymryd rhan mewn seminarau, cynadleddau a digwyddiadau ar-lein
- Darllenwch sut roedd ein Hymarferwyr Arloesi Cymunedol wedi gwneud hyn yn eu cyfres o **astudiaethau achos**

## Dylanwadu ar Bolisïau

- Cysylltwch â'ch Aelod Seneddol
- Ewch ar drywydd llunwyr polisïau ar lefel leol a chenedlaethol sy'n gweithio yn eich maes o ddiddordeb, neu wleidyddion sy'n rhan o bwyllgorau, grwpiau hollbleidiol, neu sydd wedi siarad ar eich maes o ddiddordeb, a chysylltu â nhw dros e-bost i rannu eich gwaith a gofyn am gyfarfod
- Cyfrannwch at alwadau am dystiolaeth, ymchwiliadau ac ymgyngoriadau: dysgwch fwy am wneud hyn i **Senedd Cymru**, **Senedd y Deyrnas Unedig**, **Senedd yr Alban** neu **Gynulliad Gogledd Iwerddon**
- Trefnwch ddigwyddiad yn **Senedd Cymru**, **Senedd y Deyrnas Unedig**, **Senedd yr Alban** neu **Senedd Gogledd Iwerddon**



## Hysbysu Cymdeithas Ehangach



- Cysylltwch â grwpiau cymunedol lleol a chymryd rhan ynddynt
- Rhannwch eich gwaith drwy hysbysfyrddau, cyfryngau neu radio lleol, gan gyfleu'r brif neges sef gofyn i'r gymuned gysylltu â chi
- Tarwch olwg ar adnoddau defnyddiol i ariannu gweithgareddau a dod o hyd i rwydweithiau sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys **Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**, **Local Trust** a **Rhwydweithiau Ymchwil Cymunedol**.
- Mae rhagor o wybodaeth am gyfleoedd a heriau cyflawni dull seiliedig ar leoedd yn adroddiad **Culture in Communities** Senedd yr Alban

## Defnyddio'r Cyfryngau

- Codwch broffil eich gwaith drwy gyfryngau cymdeithasol a thagio sefydliadau cyfryngau lleol/cenedlaethol neu gysylltu â nhw ar-lein
- Ysgrifennwch ddatganiad i'r wasg gyda'r brif wybodaeth am eich gwaith â'i rannu â sefydliadau cyfryngau perthnasol – darllenwch y canllawiau 'sut mae...' defnyddiol gan **Local Trust** a **Charity Digital**, a'r **Canllaw Arddull defnyddiol gan Culture Collective**
- Gallwch chi greu eich podlediad eich hun neu holi podledwyr sy'n rhoi sylw i feysydd perthnasol – dysgwch sut gwnaethon ni hyn yn ein blog **Podlediadau Cymunedau Creadigol** a gwrando ar **gyfres podlediadau Cymunedau Creadigol** sydd ar gael ledled y DU

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

# Gallwch chi ystyried gwahanol ddulliau o ledaenu



## Cynnwys ysgrifenedig:

**Llyfrau neu bapurau academaidd:** Wedi'u targedu at y gymuned academaidd fel arfer, y manteision yw rhannu a datblygu gwybodaeth newydd mewn amgylchedd sy'n hybu dysgu ac arloesi, a chreu cymuned ysgolheigaidd. Yr anfanteision yw bod y strwythur yn eithaf ffurfiol ac mai cyfyngedig fyddai'r gynulleidfa ar wahân i academyddion.

**Astudiaeth Achos:** Fformat mwy hygyrch, byddai modd targedu hyn at bartneriaid traws-sector, ac un o'r manteision yw gallu rhannu enghreifftiau manwl o sefyllfaoedd go iawn. Rhai o'r anfanteision yw eu bod yn oddrychol ac mae'n gallu bod yn anodd cyffredinoli canlyniadau.

**Newyddiaduraeth:** Ymysg y manteision mae gallu cyrraedd cynulleidfa eang a thargedu'r cynnwys at ddarllenwyr y cyhoeddiad. Mae'n gallu bod yn anodd cynnwys canfyddiadau manylach yn y fformat byrrach hwn, sy'n anfantais bosib.

**Blog:** Mae'r manteision yn cynnwys gallu cyhoeddi eich hunain drwy wefan neu sianeli cyfryngau cymdeithasol eich sefydliad, mae'r anfanteision yn cynnwys y ffaith efallai na fydd yn cyrraedd cynulleidfa eang ar wahân i'r rhai sydd eisoes â diddordeb yn eich gwaith.


### Enghraifft o Gymunedau Creadigol AHRC:



Cyfres o **astudiaethau achos** gan yr Ymarferwyr Arloesi Cymunedol, sy'n darparu tystiolaeth o werth gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau i gyflawni arloesi diwylliannol a chydlyniant cymunedol mewn cyd-destunau datganoledig.

## Cynnwys gweledol:

**Darluniadau graffig:** Mae cofnod gweledol o ddigwyddiad, cynhadledd neu allbwn ymchwil yn gallu dangos syniadau yn glir ac yn syml mewn ffordd effeithiol, gyda darluniadau a lliw, gan roi bywyd i'r prif negeseuon a themâu. Mae'r anfanteision yn cynnwys y ffaith fod angen sgiliau arbenigol i'w creu a'u bod yn gallu cymryd amser, a'i bod hi'n anodd cofnodi gwybodaeth fanylach.




Roedd Cymunedau Creadigol AHRC wedi defnyddio cofnodion gweledol i ddangos y cyfleoedd, yr heriau a'r awgrymiadau ar gyfer atebion polisi o'n cyfres **Labordai Polisi** yn y pedair gwlad, mewn cyd-destunau datganoledig yng **Nghymru**, **yr Alban**, **Gogledd Iwerddon**, **Llundain** a **gogledd-ddwyrain Lloegr**.

## Cynnwys ar lafar:



**Cyflwyniad:** Mantais hyn yw bod modd addasu eich dull i deilwra effaith eich ymchwil ar gyfer eich cynull eidfa darged, boed y byd academaidd, llunwyr polisïau neu bartneriaid traws-sector. Mae'r fformat hwn yn gallu cyfleu gwybodaeth yn effeithio ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd. Un anfantais yw efallai na fydd eich cynulleidfa'n cofio'r holl wybodaeth allweddol.

**Sgwrs TED:** Er mwyn darparu cynnwys ysbrydoledig yn gryno ac yn fanwl, ac mae'n gallu apelio at gynulleidfa draws-sector eang drwy ei lledaenu ar-lein. Mae'r ffaith nad yw'n gwahodd dadl neu safbwyntiau cytbwys yn anfantais.

**Blog fideo:** Mae blog fideo'n gallu helpu i greu cysylltiad personol â'ch cynulleidfa darged gan ei fod yn fwy diddorol na thestun, ac yn fformat sy'n addas ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, ac mae'n gallu rhoi hwb i'ch gwelededd. Rhai o'r anfanteision yw ei bod hi'n gallu cymryd amser i gynhyrchu blogiau fideo o ansawdd uchel, a bod yr offer golygu yn gallu bod yn ddrud.

**Podlediad:** Mae podlediadau'n gallu bod yn ddiddorol iawn, maen nhw'n gallu helpu i ledaenu eich cyrhaeddiad, ac maen nhw'n hygyrch i wrandawyr oherwydd bod modd gwrando unrhyw bryd. Rhai o'r anfanteision yw ei bod hi'n gallu cymryd amser i greu cyfres o bodlediadau a bod angen offer arbenigol ac adnoddau technegol.

## Gweithio'n unigol neu gydweithio:

**Gweithio'n unigol:** Manteision hyn yw bod gennych chi fwy o reolaeth dros yr allbynnau a'r amserlenni, ond yr anfantais yw nad ydych chi'n rhan o gymuned gydweithredol, a allai alluogi trafodaethau, canfyddiadau a gwaith tîm mwy ffrwythlon er mwyn rhannu'r gwaith o ledaenu effeithiau ymchwil.

**Cydweithio:** Manteision hyn yw cyflwyno mwy nag un safbwynt, rhannu llwyth gwaith a chael rhagor o bobl i gyfrannu at ymchwil a rhannu effeithiau ymchwil. Ymysg yr anfanteision mae risg uwch i'r allbynnau a'r amserlenni os nad oes gan bawb sy'n cyfrannu yr un cymhelliant.

## Enghraifft o Gymunedau Creadigol AHRC:

Cafodd awgrymiadau ar gyfer atebion polisi eu cyd-greu gan gyfranogwyr yn **Labordai Polisi Cymunedau Creadigol AHRC**, drwy ddull cydweithredol a arweiniodd at argymhellion polisi eang, a gafodd eu cymdeithasoli yn Sbrintiau Polisi'r pedair gwlad mewn cyd destunau datganoledig. **Darllenwch y papurau terfynol ar-lein**.

# Dysgwch ragor am sut gall hyn weithio'n ymarferol:

## Cymunedau Academaidd



Mae Cyfrifon Cyflymu Effaith UKRI yn ddyfarniadau strategol sy'n darparu cyllid i sefydliadau ymchwil ei ddefnyddio'n greadigol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau effaith. Dyma ragor o wybodaeth am **y cyfleoedd, y cymorth a'r adnoddau** sydd ar gael.

Mae'r **NCCPE** yn eirioli dros gynnwys y cyhoedd a chymunedau wrth greu sector addysg uwch mwy cynhwysol. Darllenwch am brosiect yr **NCCPE a'r Young Foundation**, wedi'i ariannu gan UKRI, a oedd yn edrych ar anghenion dysgu a datblygu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn partneriaethau ymchwil cymunedol, gan gynhyrchu argymhellion ar gyfer y rhai sy'n cefnogi gwaith gyda'r gymuned mewn ymchwil.

Cenhadaeth y **Cyflymydd Effaith Ddinesig Cenedlaethol** yw helpu prifysgolion ledled y DU sefydlu cydweithrediadau effeithiol â rhanddeiliaid eraill er budd eu cymunedau lleol. Tarwch olwg ar y pecyn cymorth ar gyfer **Partneriaethau Teg ar gyfer Ymgysylltu Dinesig**

## Sefydliadau Cymunedol



Roedd ein **Hymarferwyr Arloesi Cymunedol** 2023/24 wedi defnyddio dulliau cyd-greu yn eu cymunedau creadigol ar draws y pedair gwlad i roi sylw i nodau cyffredin. Cafodd eu gwaith ymchwil ei gyhoeddi mewn ffyrdd arloesol – fel **astudiaethau achos**, **papurau polisi** a **phodlediadau**  Cafodd hyn ei groesawu a'i ddathlu gan eu partneriaid a grwpiau cymunedol.

Mae **Involve** yn gweithio i wneud yn siŵr bod cyfranogiad a thrafodaethau cyhoeddus yn rhan annatod o'n democratiaeth. Mae eu **Cronfa Wybodaeth** yn cynnwys amrywiaeth o ganllawiau defnyddiol ar sefydlu prosesau cyfranogi, ymgysylltu digidol, hwyluso a gwerthuso.

Mae **Citizens UK** yn dod â phobl ynghyd i sicrhau newid drwy drefnu cymunedol. Dysgwch fwy am eu **cyfleoedd hyfforddiant arweinyddiaeth**.

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

## Llunwyr Polisïau

Roedd **Labordai Polisi** pedair gwlad Cymunedau Creadigol AHRC 2024 – cyfres o siopau polisi sy'n cael eu hwyluso'n greadigol gyda llywodraethau, llunwyr polisïau, cyfranogwyr traws-sector, cymunedau a phobl ifanc – wedi cael eu cynnal ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r Awdurdodau â Meiri yn Lloegr.


Cafodd Papurau Cythrudd Polisi, wedi'u datblygu o awgrymiadau ar gyfer atebion polisi yn y Labordai Polisi, eu cymdeithasoli yn **Sbrintiau Polisi** pedair gwlad Cymunedau Creadigol AHRC 2024-25, ar y cyd â **Rhwydwaith Arloesi Cymru**, **Senedd yr Alban**, **Cynulliad Gogledd Iwerddon** a **Champws Economaidd Darlington**.

Mae'r **Papurau Cythrudd Polisi Datganoli** terfynol yn cyflwyno cynigion y gellir gweithredu arnynt, wedi'u rhannu â llywodraethau canolog a datganoledig yn y DU, cyrff hyd braich a rhanddeiliaid traws-sector.

## Y Cyfryngau

Cafodd canlyniadau **Gwobrau Ymarferwyr Arloesi Cymunedol Cymunedau Creadigol AHRC 2023/24** eu rhannu â'r cyfryngau drwy **ddatganiad i'r wasg** a nifer o flogiau uchel eu proffil, gan gynnwys gyda **WonkHE**, **UKRI**, **Arts Professional** a'r **National Centre for Academic and Cultural Exchange** i godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau'r ymchwil.

Hefyd fe wnaeth yr Ymarferwyr Arloesi Cymunedol gynnal **Arddangosfa Ymchwil ar-lein**:



## Lleoedd ac Effaith:

Mae Cynghorau Celfyddydau'n darparu adnoddau a chyllid diwylliannol defnyddiol ar draws y pedair gwlad: mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefannau **Cyngor Celfyddydau Cymru** **Cyngor Celfyddydau Lloegr**, **Creative Scotland** a **Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon**.

Mae'r **Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** yn cefnogi diwylliant, y celfyddydau, cyfryngau, chwaraeon, twristiaeth a chymdeithas sifil ledled Lloegr. Dysgwch fwy am eu gwybodaeth a'u hadnoddau diweddaraf ar gyfer **Cymdeithas a Diwylliant a Thai, Gwasanaethau Lleol a Chymunedau**.

Os ydych chi'n byw mewn ardal ddatganoledig, **dysgwch fwy** am ddatganoli diwylliant a'r strategaethau diwylliant yn y tair gwlad ac mewn Awdurdodau Strategol â Meiri yn Lloegr.



## Cofiwch feddwl am eich amserlen ac unrhyw gyfyngiadau amser ar gyfer rhannu effeithiau eich ymchwil:

Mae ennyn diddordeb mewn polisi a chodi ymwybyddiaeth yn barhaus yn gallu cymryd cryn amser a gwaith cynllunio, ond mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol neu gyhoeddi blog eich hunain yn gallu bod yn atebion cyflymach o lawer, ond mae dal angen cynllun ar gyfer pam eich bod yn cyhoeddi, beth ydych chi'n ei ddweud a phwy ydych chi'n awyddus i'w cyrraedd.

## Yn barod am ragor o wybodaeth?

Mae pedwar Modiwl ym Mhecyn Cymorth Cymunedau Creadigol AHRC – mae pob un o'r rhain ar ein gwefan: **www.creativecommunities.uk**

**Modiwl 1:** Ymchwil a Datblygu Cymunedol: Sut i gymryd rhan mewnymchwil a datblygu diwylliannol fel cymuned greadigol

**Modiwl 3:** Yr arferion gorau o ran cynnal cydweithrediadau traws-sector

**Modiwl 4:** Cyd-greu Polisi Diwylliant

Creative Communities
Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE